Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**11 Medi 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio
Rheoliad 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae'r OS hwn yn dirymu ac yn ail-wneud un o'r cywiriadau a wnaed i Reoliad 853/2004 cyfraith yr UE a ddargedwir gan Reoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/640).

Bydd y cywiriad sy'n cael ei ail-wneud yn yr OS hwn yn ei gwneud hi'n glir y bydd gan Weinidogion Cymru ragor o bwerau gweithredol. Bydd y cywiriad yn trosglwyddo'r pwerau i Weinidogion Cymru greu rheoliadau i bennu pa sylweddau y gellir eu defnyddio i gael gwared ar halogiad o garcasau anifeiliaid, ac i osod unrhyw amodau defnyddio. Bydd y rheoliadau yn destun dirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau
Ar hyn o bryd, mae Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) 853/2004 yn nodi na chaiff busnesau bwyd yn yr UE ddefnyddio unrhyw sylwedd ac eithrio dŵr i gael gwared ar halogiad o garcasau anifeiliaid oni bai bod defnyddio'r sylwedd hwnnw wedi'i gymeradwyo mewn deddfwriaeth a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid i fusnesau bwyd hefyd gydymffurfio ag unrhyw amodau defnyddio a ragnodir yn y ddeddfwriaeth.

Byddai Rheoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 fel y'u gwnaed ar 18 Mawrth 2019 wedi diwygio Erthygl 3(2) o Reoliad 853/2004, o'r diwrnod ymadael. Byddai'r diwygiad wedi nodi y gallai'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)/Safonau Bwyd yr Alban, ar ôl ymadael â'r UE, gymeradwyo defnyddio sylweddau ar

wahân i ddŵr, dim ond pan fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion yn y rhan berthnasol o'r Deyrnas Unedig (DU) yn rhoi effaith iddynt.

Fodd bynnag, wrth ystyried ymhellach, ystyriwyd nad oedd drafft rheoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 yn nodi'n ddigon clir mai Gweinidogion yn y rhan berthnasol o'r DU oedd â'r penderfyniad terfynol ynghylch cymeradwyo defnyddio sylwedd, nid yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban.

O ganlyniad, bydd yr OS hwn yn dirymu, yn syth cyn y diwrnod ymadael, reoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd Penodol (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019. Yna bydd yr OS yn ail-wneud y diwygiad arfaethedig, o'r diwrnod ymadael, ond yn nodi'n glir mai'r Gweinidogion yn y rhan berthnasol o'r DU sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol o ran awdurdodi'r defnydd o sylweddau amgen i gael gwared ar halogiad o garcasau.

Golyga hyn, yng Nghymru, gellir ond defnyddio sylwedd arall os caiff ei awdurdodi gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/wnMJ8407

Pam rhoddwyd caniatâd
Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Yn yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.